

Cyfeillion STORIEL / Amgueddfa a'r Oriol Gwynedd

CYLCHLLYTHYR GWANWYN 2019

Elusen Gofrestredig Rhif. 1003922



BLWYDDYN NEWYDD DDA I'N HOLL AELODAU A CHROESO I LYTHYR NEWYDDION CYNTAF 2019. Ymddiheuriadau na chafwyd Llythyr yn yr Hydref oherwydd anawsterau gyda trefnu'r rhestr darlithoedd mewn pryd ac felly rhaid oedd cysylltu drwy e-bost yn unig.



Fred ac Alison ar un o'u teithiau anturus

Fred Whowell: Trist yw gorfod cofnodi marwolaeth Fred Whowell a fu farw ym mis Rhagfyr. Yr oedd ef yn Gyfaill nodedig ac yn frwdfrydig ynghylch yr Amgueddfa a'i chasgliadau. Cawsom fel Cyfeillion groeso ar sawl achlysur yn y Goetre Isaf, cartref Fred ac Alison. Gedy fwlc h o'i golli ac ni welwn mwyach ei wasgodau lliwgar.

NEWYDDION O STORIEL

- **Mae'r caffi** yn dal dan weinyddiad Storiell ac mae ar gael i'w logi ar gyfer partiön preifat
- **Y Cyfeillion yn cyfarfod gyda aelodau yr Ymddiriedolaeth Datblygu.** Hyd yma mae'r cynnydd yn araf ond mae'r Ymddiriedolaeth wedi agor cyfrif banc ac felly gall gofrestru fel Elusen. Bydd y Cyfeillion yn cefnogi'r Ymddiriedolaeth drwy adneuo y cyfrif cychwynnol. Mae prosiectau ar droed y gall yr Ymddiriedolaeth wneud ceisiadau cyfalaf i'w datblygu.

RHAG HYSBYSIAD: PWYLLGOR CYFFREDINOL BLYNYDDOL. Dydd IAU MAI 16eg am 7yh. Siaradwr – i'w drefnu. Hoffem glywed gan unrhyw aelod a fyddai'n dymuno ymuno â'r pwyllgor cyn y dyddiad uchod.

MENTER Y CYFEILLION - GWYBODAETH

- **Gwirfoddolwyr i'r ardd:** Mae Julian Bradnam

brys ar bridd gwael. Mae'r Cyfeillion yn cefnogi drwy wella'r pridd a chynnig planhigion. Os y gellwch wirfoddoli neu gynnig celfi gardd yna cysylltwch â Julian: simddawen48@gmail.com

- **Mae'r Cyfeillion yn cynnig dyddiau hyfforddi** i wirfoddolwyr yn yr amgueddfa a taflenni gwybodaeth i stiwardiaid yr ystafelloedd.

- **Rhoddion/Cyllid:** Casglwyd £1011.44 yn y blychau rhoddion hyd yma eleni a bydd y swm yn medi 25% ychwanegol drwy Gift Aid. Cyfrannodd Gift Aid £274 ar roddion y llynedd.

- **Parti Nadolig 2018:** Oherwydd mai nifer bychan a fynychodd y parti rhaid ystyried dulliau gwahanol o godi arian yn y dyfodol. Cyfrannodd y parti dolig £346.45 i'r coffrau.

CRONFA CELFYDDYD. Darlith codi arian yn Storiell **dydd Gwener, Mawrth 1af am 2yp.** Michael Freeman – Gwisg Gymreig, Mynediad £10.

DARLITHOEDD Y GWANWYN (am ddim)
Cynhelir ar ddydd Gwener ar thema 'Merched Bywiog'

Mawrth 8fed: 12.30yp. Annie Williams - Votes for Women: The Bangor Suffragists.

Mawrth 15fed: 12.30yp. Lisa Hudson/Marged Pendrell - Merched Chwarel – ddim yn dawel.

Mawrth 22ain: 12.30yp. Lindsey Colbourne / Lisa Hudson Hanes Llanddynes – Llandudno through the stories of Women.

Mawrth 29ain: 12.30. Wil Aaron: Dr Martha Hughes Cannon – from Llandudno to the US Senate.

YN Y ORIELAU.

Ionawr 12 – Chwefror 23: Touching Syria: Gwaith celf gan artistiaid cyfoes o Syria.

Ionawr 26 – Ebrill 6: Lisa Eurgain Taylor Between II Lights.

Ionawr 26 – Ebrill 6: Brenda Chamberlain – peintiadau a lluniau o'r casgliad

Ionawr 26 – Mawrth 30: New Again – ail godi eitemau o'r casgliad

ARDDANGOSFA CELFYDDYD AGORED

STORIEL: Artistiaid i gyflwyno erbyn **Mawrth 18fed;** Ffurflenni ar gael yn Storiell neu ar lein- <https://www.storiell.cymru/open-art>